

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWDYD AR A'R NOS LUN 30AIN O DACHWEDD 2020 TRWY "MICROSOFT TEAMS" AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL: Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Ceri Davies, Arwel Davies, Bari Evans, Geraint Jones, Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Iwan Jones, Falmai Evans, Hywel Davies a Stanley Williams.

3. DDATGAN DIDDORDEB: Dim yn codi.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 26ain o Hydref 2020 gan y Cynghorwyr yn bresennol.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cwblhau'r gwaith ar y ffyrdd canlynol a thrafodwyd yn y cyfarfod blaenorol y Cyngor:-

1. Twll yn y ffordd wrth yr "Hen Vicarage" yn Llanrhaeadr.
2. Gwlia' u wedi tagu a mwd ar y llwybr troed wrth Faes Hwylfa, Llanrhaeadr.
3. Eisiau golau gwell wrth y llochesi bwysiau yn yr hen lan Llanrhaeadr.
4. Dwr yn cynyddu ar y ffordd rhwng Tan-y-Garth a Chae Glas rhwng Prion a Peniel.
5. Tyllau yn y ffordd rhwng Pen-y-Gerddi a Fferm y College ym Mheniel.
6. Twll yn y ffordd wrth Feini Diddos ym Mhrion.
7. Dwr yn cynyddu ar y ffordd rhwng Y Bwlch a Tanrallt thwng Prion a Peniel.
8. Plât arwydd groesffordd ar goll rhwng pentref Saron a Bryn Glas, Saron.

B. Mae Cyngor Sir Ddinbych ddim wedi cwblhau'r gwaith ar y ffyrdd canlynol a thrafodwyd yn y cyfarfod blaenorol y Cyngor:-

1. Twll yn y ffordd wrth Berllan Fach ym Mhrion.
 2. Plât arwydd groesffordd ar goll rhwng pentref Saron a Bryn Glas, Saron.
- C. Derbyniwyd llythyr o ddiolch am gymorth arian oddi wrth Dr Gerwyn Jones, Cadeirydd Clwb Ieuenctid Clwb Pêl Droed Henllan tuag at gostau ychwanegol oherwydd y rheolau'r Cofid-19. Penderfynwyd ar y rhodd o £300.00.
- D. Derbyniwyd diolchiadau oddi wrth berchnogion Siop-y-Pentre, Llanrhaeadr am y llythyr gan y Cyngor Cymuned am y gwasanaeth di ben mae'r Siop wedi rhoi'r gymuned yn ystod yr pandemic Cofid-19.

6. DIWEDDARAF BAND EANG Y GYMUNED.

Adroddwyd y Cadeirydd fod yna ymateb da i'r cylchlythyr a dosbarthwyd i'r trigolion y Gymuned, sef cyfanswm o 40 sydd yn cynnwys 22 o blaid WISP a tri am 4G. Cytunodd y Cadeirydd i baratoi datganiad i'r wasg ynglŷn ar ganlyniad yr holiadur.

7. DIWEDDARAF MATERION "COFID-19" YN Y GYMUNED.

Nid oedd yna unrhyw adroddiad ychwanegol ymhellach ynglŷn ar faterion diweddaraf "Cofid-19" yn y gymuned.

8. MATERION CYLLID.

A. Datganid banc £13,321.77.

B. Rhoddwyd awdurdod i dalu'r canlynol:-

1. "Apêl Pobi Goch" am dorch pobi i'r Sul y Cofio ar 8fed o Dachwedd 2020 £50.00.
2. HG Web Designs am gostau blynyddol Wefan y Cyngor £150.00.
3. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Rhagfyr 2020 £489.60
4. HM Revenue & Customs am PAYE am y chwarter yn diweddu 31ain o Rhagfyr 2020 £122.40.

9. CEISIADAU CYNLLUNIO:-

A. Cais Cynllunio 23/2020/0419 - Codi estyniad ac addasiadau i'r annedd, newid defnydd tir amaethyddol i gwrtil domestig, tirlunio a gwaith cysylltiedig yn Nant Aber Oer, Peniel – nid chodwyd unrhyw wrthwynebid i'r cais cynllunio.

B. Penderfyniad Pwyllgor Cynllunio, Cyngor Sir Ddinbych i'r cais cynllunio 23/2020/0067 - gwaith peirianyddol arfaethedig i ffurfio llyn pysgota, llwybrau mewnol, maes parcio a gwaith cysylltiedig yn Gaer Mynydd Carafan Park, Caer Mynydd Farm, Saron. Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Sir Ddinbych, Joseph Welch, fod y Pwyllgor Cynllunio wedi caniatáu'r cais cynllunio o fwyafrif o 13 i 3 ac mae yna 12 o amodau sydd yn berthnasol i'r cais cynllunio.

C. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Cais 23/2020/0659 - addasu adeilad allanol i ffurfio cyfleusterau trin ffisiotherapi a gwaith gystylliedig yn Llindir, Llanrhaeadr.
2. Cais 23/2020/0117 - adeiladu morlyn slyri a gwaith cysylltiedig yn Rossa Bach, Prion.
3. Cais 23/2020/0496 - dymchwel estyniad deulawr presennol a rhan o adeiladau allanol. Codi estyniad deulawr, estyniad i'r llawr cyntaf, addasiadau i gynllun ffenestri, tirlunio a gwaith cystylliedig yn Ffordd Las, Llanrhaeadr.

10. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

11. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Adroddwyd y Cynghorydd Sir ei god wedi adroddi'r materion ffyrdd canlynol i'r Cyngor Sir:-

A: Cyflwr gwarthus y ffordd heibio Maes-y-Felin, Llanrhaeadr tuag at Brion.

B. Cyflwr gwarthus y ffordd tuag at Y Foelas ym Mhrion.

12. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y materion ffyrdd canlynol:-

A: Graffiti ar yr arwydd "Ffordd yn Culhau" wrth Rossa Fawr ym Mhrion.

B. Gwli eisiau eu glanhau yn llan Llanrhaeadr.

C. Estynni'r llinellau melyn dwbl ar y ffordd wrth y Lodge yn llan Llanrhaeadr.

D. Golau stryd wrth Tan-y-Groes ym Mhrion eisiau sylw.

E. Gwli eisiau eu glanhau ym Mhrion.

F. Arwydd "Dim Disgwyl" ddim wedi eu rhoi ar y pyst wrth Y Lodge yn Llanrhaeadr.

13. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 25ain o Ionawr 2021 am 7.30 o'r gloch trwy

"Microsoft Teams".